# YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 5.] MAI 1919 [PRIS 2g.

.. CYNHWYSIAD. ..

EDYN FFYDD.
NODION Y MIS.
ODDIAR Y TWR.
CREFYDD YMARFEROL.
ARWR DU.
GENEDIGAETH. MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

*Llandyssul:*
*Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.*

# YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis ; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a goheb iaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.



## Mourning Cards . . .

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

## T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

*Flour Millers - - -*
*& Provender Millers, - -*
*Merchants, - - - -*
*Wholesale Grocers, &c. &c.*

# YR YMOFYNYDD.

*Cylchgrawn Misol y . . .*
*Gymdeithas Undodaidd Gymreig.*

*"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.*

CYFRES NEWYDD. MAI, 1919. [CYF. XIX. RHIF 5.

## AR ADEN FFYDD.

### SAITH TYMHOR DYN.

Babandod!—byw heb un-dôn—o ofid
Yn llifo trwy'r wenfron;
Yn y golwg mae'r galon
Yn siarad trwy'r llygad llon.

Y plentyn i'r dyn sy'n dad—i'w ysgol
Ymlusga yn ddifrad;
Uwch difyrwch difwriad
Oriau hoen a wertha'n rhad.

Ie'ngctyd têr! amser i ymson—a byw
Mewn byd o freuddwydion;
Darfelydd dry ofalon
O fro haf cariad y fron.

Paradwys y priodi—heibio â,
Daw bywyd o ddifri';
Llwybrau aur, ffordd enill bri
A leinw'r darlunleni.

Yn oedran hardd aeddfedrwydd—y profiad
Yw'r prif-weinydd ebrwydd;
Rheswm sobr a sioma swydd
A mil-ryw raith gwamalrwydd.

Henaint oer sydd yn tori—ei enw
Ar wyneb y tlysni;
Y funud a fu heini,
Yn ara' iawn 'nawr â hi.

Diweddnod y cyfnodau—rydd arwydd
O oer anadl angau;
Dyn gwyd o fyd breuddwyd brau
I'r byd mawr heb dymhorau.

H. ELFED LEWIS.

## NODION Y MIS.

YNG nghyfarfodydd Cynhadledd Genedlaethol yr Eglwysi Rhyddion yn Sheffield, fis Mawrth diweddaf, dywedwyd rhai pethau sydd yn deilwng o ystyriaeth. Meddai y llywydd, Dr. Guttery, "Pe medrwn gyrraedd yr eglwysi o'r gadair hon, galwn hwynt i anturiaeth uchel ac arwrol. Yr ydym wedi parchu pethau canolig a chyffredin yn rhy hir. Y mae angen arnom am ffydd sydd yn dân byw, am uchelgais herfeiddiol, ac am fwriad a chwardd ar rwystrau a ymddangosant yn anorchfygol. Rhaid i'r eglwys heddyw ruthro dros ymylon y ffosydd, os myn hi arwain gwrthryfel yn erbyn trais, creulondeb ac anwiredd, a chodi'r hil ddynol i ryddid a ffydd meibion Duw. Nis gall yr eglwys fforddio i fod yn bŵl. Rhaid iddi wynebu a chroesawu peryglon; rhaid iddi herio beirniadaeth a gelyniaeth, a'u gorchfygu drwy frwdfrydedd yr ysbryd tanllyd. Dyma'r unig ffordd iddi ennill yr ieuenctyd sydd wedi ein synnu a'u dewrder a'u hunan-aberth."

* * *

"Nid yw'r duedd i fod yn wagelog yn ateb gofynnion yr oes. Rhaid ymladd gydag egni yn erbyn pechod a meddwdod, ar waethaf y rhai mewn safleoedd uchel sydd yn rhy amheus neu ofnus i wrthwynebu drygau. Yn ol y siarad heddyw, y mae llawer eto heb sylweddoli ein bod wedi torri cadwynau'r gorffennol. Nis gallwn fynd yn ol at amcanion a dadleuon y cyfnod cyn y rhyfel. Gwawriodd cyfnod newydd, a rhaid i ni feiddio ymwrthod a hen draddodiadau nas gallant mwyach ein diogelu. Dynoda Ceidwadaeth rywbeth mwy nag arwyddlun parti, dynoda duedd feddyliol nas gall meibion y wawr eu dioddef, am eu bod wedi cael golwg ar Dir yr Addewid. Y mae gwrthryfel yn ein plith, a ni yw ei ymddiriedolwyr moesol; drwy anturiaeth ysbrydol, medrwn ei gadw yn beth sanctaidd a bendithiol."

* * *

"Pe gelwid ar rai o grefftwyr y wlad," meddai'r Parch. S. Berry, "i weithio am yr un bris a llawer o weinidogion, byddai iddynt dorri allan mewn gwrthryfel yn fuan." Buddiol fyddai gwybod faint o weinidogion sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth oherwydd y prisiau uchel, ac i ba raddau.

* * *

Dywedodd y Prif-athro Garvie, "Rhaid i'r eglwysi, yn y dyfodol, ddweyd pethau na feiddient hyd hyn am beryglon a dyledswyddau'r cyfoethogion. Rhaid i ni wynebu'r sefyllfa gymdeithasol, canys

byddai yn ddamnedigaeth genedlaethol i'r Cristionogion ofni dweyd yn glir beth sydd yn gyfiawn, ac nid yn unig beth sydd yn gyfiawn ond hefyd beth yw tosturi a charedigrwydd tuag at gyd-ddyn yn yr ymdrechfa rhwng cyfalaf a llafur."

* * *

Rhoddodd Kingscote Greenland ergyd i'r pregethwyr. "Dywedwch yn onest," meddai, "faint ohonoch âi i'r gwasanaeth onibae mai chwi sydd i arwain? Byddai i lawer ohonynt eich blino hyd ddagrau." Gormod o ddelfydau benywaidd, meddai ef, sydd yn yr eglwysi. Y mae eisiau crefydd a gwaed coch ynddi, nid cyrddau tê a chlongcan.

Bu Mr. Greenland yn weinidog unwaith. Efallai mai adrodd ei brofiad ei hun ydoedd. Beth bynnag am hyn nid oes llawer o ras ar ei eiriau.

* * *

Ymddengys mai lled arw ar droion yw llwybr y Gynhadledd Heddwch a Chyngrair y Cenhedloedd. Anodd yw bodloni awydd yr Eidal am diriogaeth, a phentwr o benbleth ac anhawsterau yw gwledydd Iwrop ddwyreiniol. Gobeithiai rhai ohonynt mai nid er boddio awydd cenhedloedd eraill y gorchfygwyd trais a thrachwant yr Almaen. Y gwir yw nad yw'r rhyfel wedi newid y natur ddynol, ac anodd yw credu y gall rhyfel fyth newid y natur ddynol, ac anodd yw credu y gall rhyfel fyth newid y bwystfil yn angel. Nid Belgium oedd unig winllan Naboth ar y Cyfandir.

* * *

Un o orchwylion mwyaf anodd y Gynhadledd fydd trefnu rhyw fath o unoliaeth yn neddfau llafur y gwahanol wledydd. Os pery gweithwyr Japan i lafurio, yn fawr a mân, o doriad gwawr hyd gyfnos, am brisiau isel anodd fydd i Brydain gystadlu a hwy ym marchnadoedd y byd. Gwaith anodd hefyd fydd gorfodi gweithwyr yr Almaen i fyrhau eu horiau llafur, a hwythau dan rwymedigaeth i dalu swm anferth fel iawn am eu dinystr yn y rhyfel, heb son am eu dyled wladol, gartref. Hyd yma, ychydig argoel sydd am drefn yn Rwssia, ac efallai y bydd yn rhaid i'r Gynhadledd aros am dro cyn sefydlu un math o gytundeb a'r wlad anffodus honno. Helbulus fydd y byd am dro mawr eto, ac nid yw arwyddion yr amserau yn cadarnhau'r gobaith fod y rhyfel olaf drosodd.

* * *

Y mae hadau Sosialaeth yn gryf mewn cymdeithas heddyw, ac ar bapur nid oes un gyfundrefn mor odidog a hi. Yr wyf mewn cariad

a hi er yn blentyn, ac wedi treulio llawer awr felys yn ei phalas gwych yn y cymylau. Y prif rwystrau ar ei ffordd yw trachwant ac anonestrwydd y natur ddynol. Egwyddor sylfaenol Sosialaeth yw fod dyn mor barod i weithio er lles eraill ag er ei les ei hun. Os nad yw hyn yn ffaith, syrth yr adeilad yn chwilfriw. Da gan fy nghalon fyddai gallu credu fod yr ysbryd anhunanol yn beth cyffredin, ond wrth sylwi ar y byd rhaid i mi addef mai anghredadyn wyf. Y mae llawer iawn o waith diwyllio ar enaid dyn eto cyn y bydd hunanoldeb wedi ei ladd. Ar hyn o bryd, ein dyledswydd yw gwneyd popeth fedrwn i ledaenu a dyfnhau addysg, i gydnabod teilyngdod ymhob cangen dda o fywyd, gan obeithio, ryw ddydd, weled ein castell prydferth yn yr awyr yn gorffwys ar sylfaen ddaearol gref.

* * *

Heddyw, y mae gormod o duedd i edrych ar y Llywodraeth fel rhyw allu húd, amhersonol, yn meddu cawg aur dihyspydd, o'r hwn y gall ddigoni holl anghenion dynion. Y gwir yw fod y cawg yn wag, a'r gallu hûd mewn dyled o wyth mil o filiynau, nas gall un dewin ei doddi ar fyr dro. Y mae eisiau medr, diwydrwydd a darbodaeth fel y gallom wynebu'r byd unwaith eto gan ddweyd gyda balchder calon nad oes arnom ddyled i neb.

* * *

Deallaf fod pobl Abertawe ar fedr sefydlu Coleg yn y dref, fel rhan o Brifysgol Cymru. Rhwydd hynt iddynt. Nid oes dim yn werthfawrocach i ddyn nag addysg dda. Hyd yma, darfu i'r Cymry ddibynnu gormod ar ddychymyg, a rhy fach ar addysg. Diffyg cyfleusterau, yn bennaf, fu'r achos o hyn. Y mae dychymyg yn gynneddf werthfawr iawn, a chydag addysg dda o'r tu cefn i'w ddychymyg dylai'r Cymro ddringo i safleoedd uchaf y wlad. Dychymyg yw mam dyfais, ond rhaid cael gwyddor i'w gwneud yn sylwedd ymarferol. Dymunaf weld ieuenctyd Cymru yn ymberffeithio yn y gwyddorau, heb golli eu cariad at fiwsig a llenyddiaeth. Y mae eisiau diwyllio pob talent yn hen Gymru fynyddig "i godi'r hen wlad yn ei hol."

---

## Y GARDDWR.

Noddi mŷg flodeuwydd mâd,—ac irddail
Wna'r Garddwr yn wastad ;
A thrwy enwog feithriniad,
Fe rydd wledd ar fwrdd y wlad.

MENAIFAB.

# ODDIAR Y TWR.

Nid bychan yw llawenydd pob carwr heddwch oblegid gweled o honno y syniad o "Gynghrair y Cenhedloedd" ar gael ei newid o fod yn gastell yn yr awyr i fod yn gastell a'i sylfaen ar y ddaear. Rhyfedd iawn ydyw, onite, y rhaid i'r holl ganrifoedd fyned heibio cyn i'r fath ar gynllun i rwystro rhyfeloedd a'r un sydd dan ystyriaeth yn awr gael ei ddwyn i weithrediad! Rhyfedd ydyw, hefyd, y rhaid cael rhyfel mor waedlyd a dinystriol a'r un yr ydym newydd ddod o honno cyn y gellid gwneud y syniad yn "wleidiadaeth ymarferol," ys dweddir! Ond araf yw pob diwygiad, a "da pob peth a derfyna'n dda."

***

I bwy yr ydym yn ddyledus am y syniad o "Gynghrair y Cenhedloedd"? Fe'i priodolir i lawer. Y mae cryn dipyn o'r clod am y derbyniad bron unfrydol roddir iddo heddyw yn perthyn i Gymro—ie, i un o blant Ceredigion—y diweddar Henry Richard. Fe wnaeth ef gymaint a neb—fe dreuliodd ei oes ym mron yn gyfan—i bleidio heddwch, i ddarbwyllo'r cenhedloedd o ffolineb rhyfel, ac addfedu'r teimlad yn ffafr penderfynu pob annealltwriaeth trwy ryw foddion heb trwy ryfel. Fe wnaeth hyn yn fynych yng ngwyneb anhawsterau, gwawd a dirmyg. Efallai na ddaeth i'w feddwl y syniad o "Gynghrair y Cenhedloedd" fel yr adnabyddwn ni ef. Nid y dull y dygir y syniad i weithrediad, fodd bynnag, sydd bwysig; eithr cael y syniad mewn gweithrediad. Nid yw Henry Richard, eto, wedi cael y clod a haedda oblegid ei ymdrechion o blaid heddwch.

***

Testyn ymffrost naturiol i Gymro yw'r ffaith y perthyn mesur mor fawr o'r clod am boblogeiddio'r syniad o "Gynghrair y Cenhedloedd" i gyd-wladwr. Testyn ymffrost iddo, hefyd, yw'r ffaith fod gan Gymro arall ran mor flaenllaw yn nygiad y syniad i weithrediad. I'r Arlywydd Wilson y perthyn y clod mwyaf; eithr y mae ein Prif Weinidog ni wedi ymdaflu â'i holl ynni i gydweithrediad ag ef yn ei grwysad ddyngarol. Y mae amryw o orchestion ein Prif Weinidog yn gyfryw a sicrhânt iddo le amlwg yn rhestr enwau ein gwleidyddion; eithr nid oes yr un a ddwg iddo fwy o glod na'i bleidiaeth wresog o "Gynghrair y Cenhedloedd."

***

Ardderchog ydyw amcan "Cynghrair y Cenhedloedd"—gwneud rhyfel yn amhosibl byth mwy. Ond—a lwyddir? Amser a ddengys. Y mae un peth, fodd bynnag, yn sicr o fod yn wir—y gwna'r bobl "sydd dda ganddynt ryfel" bob peth a fedrant i'w llesteiriio. Nid yn yr Almaen yn unig y ceir y bobl hyn: fe'u ceir ym mhob gwlad. Ond ennill mawr ydyw fod ymgais yn cael ei gwneud i ddyrysu eu cynlluniau—yn cael ei gwneud, hefyd, gyda banllefau cymeradwyaeth yr holl fyd gwareiddiedig.

***

Pan y cyhoeddwyd y "cadoediad" ddechreu Tachwedd diweddaf, daeth i fynwes trigolion yr holl fyd deimlad o esmwythyd nas profwyd mo hono ganddynt am dros bedair blynedd; a dechreuid edrych ym mlaen tua'r dyfodol gyda gobaith am adferiad yr amserau hyfryd fu yn rhan iddynt hyd dorriad y rhyfel allan. Eithr nid cynt y gadawyd un gofid ar ol

nag y daeth gofidiau ereill i'n blino. Cyfeiriaf at y cynhyrfiadau gwleidyddol a llafurol drwy'r gwledydd. Ym Mhrydain, llwyddwyd i gadw'r cynhwrf tu fewn i "fyd llafur." Diolch am hynny, oblegid digon yw un gofid ar y tro. Ni fu'r fath ar "gawod" o "streiciau" erioed o'r blaen yn hanes y gwledydd—"streiciau" a fygythient fodolaeth cymdeithas, fel yr arferem ni ei hadnabod, a pheri'r fath ar chwyldroad cymdeithasol na ddaeth i ymenydd hyd yn oed y Sosialydd mwyaf eithafol y gwelid agos ei gyffelyb yn amser neb sydd yn fyw yn awr.

***

Beth am achosion y cynhyrfiadau hyn? Y maent, yn ddiau, yn lliosog; eithr credaf y gellir enwi dau achos arbennig—y rhyddhad o'r profiad enaid-dirdynnol fu yn rhan i fobl pob gwlad yn ystod y pedair blynedd diweddaf, a'r fudr-elwaeth neu'r or-elwaeth (beth yw'r gair priodol am *profiteering?*) fu yn nodwedd mor boenus o fasnach y gwledydd. Yna, fe ffynnai'r teimlad yn gyffredinol iawn fod ein bechgyn yn rhoi eu bywyd, nid dros ryddid yn gymaint a thros ategu'r ffurf o gymdeithasiaeth, prif nodwedd yr hwn drwy'r oesau fu sathru'r gwan a noddi'r cryf. Creai'r teimlad hwn, yn naturiol, awydd am gyfnewidiad—awydd a dyfai yn raddol i argyhoeddiad y rhaid cael cyfnewidiad. Nid rhywbeth dros amser—nid planhigyn diwrnod—mo'r teimlad hwn, ond teimlad sydd wedi dod i aros; a rhaid fydd i'r awdurdodau gwladol fod ar ddihun i gwrdd ag ef, a'i foddloni, os am ochelyd rhywbeth a fo gwaeth.

***

Cydnabyddaf fy hun yn gydymdeimlwr â'r hyn a elwir yn Sosialiaeth—mor bell ag y deallaf ei hamcan. Cydnabyddaf na feddaf syniad clir gyda golwg ar sut y dygir Sosialiaeth i weithrediad. Rhyw fath ar dyfu yn naturiol i'r cyflwr Sosialaidd: dyna fel yr ymddengys y mater i mi. Pa hyd y cymer y tyfiant hyd nes y sylweddolir y cyflwr Sosialaidd? Nid oes gennyf un syniad—rhywbryd yn y dyfodol, rhy bell i neb o'r genhedlaeth bresennol i fod yn llygad-dyst o hono. Nid hoff ydwyf, rhaid imi gyfaddef, o chwyldroadau tebyg (dweder) i'r "chwyldroad Ffrengig"—"twmblo'r byd drwyddo ar unwaith," ys desgrifiwyd hwy wrthyf yn ddiweddar. Ond yr ydym yn byw mewn adeg ryfedd iawn, pan y trwythir cymdeithas gan elfennau tanllyd i'r eithaf. Ymddengys fel pe ein bod wedi ein taflu yn ddi-rybudd i ganol pair, o'r hwn y daw cymdeithas allan yn gymdeithas newydd "spond," ys dwedir, gyda phob peth—y rheiffyrdd, y mwnfeydd, y llongau, y tir, ac yn y blaen—wedi eu cenhedlaetholi. Perai hyn gryn dipyn o annghyfleustra, efallai, i rai dosbeirth o ddynion; ond i'r bobl—wel, ai bendith fyddai'r cyfnewidiad iddynt hwy? Ni ellir dweyd. Mater o opiniwn ydyw hyn eto. Eithr y bobl ddylid ystyried gyntaf mewn materion o'r fath hyn.

***

I nifer liosog o ddynion, tipyn o fwgan yw Sosialiaeth? Ond ymddengys i mi y perthyn iddi gryn lawer o Gristionogaeth. Beth yw nod Sosialiaeth? Sicrhau daioni mwyaf y nifer liosocaf o ddynion. Dyna, hefyd, yw nod Cristionogaeth. Neu, fe ellir ddesgrifio'r ddau fel yr ymgais i godi'r dyn sydd ar lawr—i godi'r *bottom dog*, ys dwedodd ein Prif Weinidog yn un o'i anerchiadau diweddar. With son am Gristionogaeth yn y cysylltiad hwn, nid y wedd erthylaidd arni welir yn rhy aml sydd mewn golwg gennyf, eithr Cristionogaeth Iesu. Y mae hon, fe ddwedaf eto, yn cydweddu â'r ysbryd Sosialaidd sydd yn ennill tir mor gyflym.

Un o nodweddau amlwg ein hamser yw'r diddordeb cynhyddol a arddangosir yn yr hyn a elwir yn gyffredin yn Ysbrydegaeth. Gwnawd cyfeiriad at y mater yn un o'r rhifynau diweddaf; a chyfaddefaf, cyn myned ym mhellach, mai safle awdur yr erthygl ddiddorol ar "Nefoedd Newydd a Daear Newydd" yw'm safle innau. Y mae'm hymchwiliadau yn nhiriogaeth Ysbrydegaeth lawer rhy brin ac arwynebol i'm galluogi i draethu barn; felly, cadwaf "feddwl agored" i ddisgwyl am oleuni llawnach, gan ymwithod, yn y cyfamser, â'r osgedd watwarus a faentumir gan lawer pan y sonir am y peth wrthynt. Ysbryd hollol anwyddonol yw eiddo'r bobl hyn. Os oes bywyd dyfodol, pam lai nad yw yn bosibl i ysbrydoedd ymadawedig i gyweithasu â'r rhai a adawyd ganddynt am dymor ym myd amser.

***

"Os oes bywyd dyfodol" a ddywedais? Oes ynof un amheuaeth ar y mater? Na, nid amheuaeth yw'r gair priodol i ddesgrifio'm safle. Ond fe hoffem feddu mwy o sicrwydd. Efallai fod safle Job, neu, safle awdur Job, yn cynrychioli safle'r mwyafrif parthed y cwestiwn hwn. "Os bydd gwr marw, a fydd efe byw drachefn?" oedd gofyniad Job. Beth oedd ei ateb? Nid oedd ganddo yr un. "Disgwyliaf holl ddyddiau fy milwriaeth," meddai, "hyd oni ddelo fy nghyfnewidiad"; mewn geiriau ereill, "Arhosaf hyd oni ddelo'r cyfnewidiad mawr; yna, os byw fyddaf ar ol hynny, fe gâf ateb i'm gofyniad; os nad byw fyddaf—wel, dyna derfyn ar y cwbl." I'r mwyafrif, mater o ryw fath ar obaith mwy neu lai cryf yw bywyd dyfodol, ac nid sicrwydd.

***

O'r hyn a ddwedwyd, fe gyfyd y gofyniad a ganlyn: A wnelai gwybodaeth sicr parthed bywyd dyfodol un gwahaniaeth ym mywyd dyn? Yn ddiamheuol fe berai chwyldroad yn ei ddull o edrych ar fywyd ac yn ei ddull o fyw. Y mae cred drwyadl mewn bywyd dyfodol, hyd yn oed pe dim ond gobaith yw ei sylfaen, yn meddu dylanwad rhyfeddol o fawr ar fywyd y crediniwr. Pa faint mwy, tybed, fyddai dylanwad cred seiliedig ar wybodaeth sicr? Ydyw cred o'r fath hyn yn ddichonadwy? Paham lai? Os llwyddir yn yr ymchwiliadau presennol yn nhiriogaeth ysbrydegaeth i gadarnhau honiadau ei phleidwyr, ymddengys i mi nad yn hawdd y gellir gochelyd credu. Y mae cryn lawer o dwyll, yn ddiau, yng nglyn â'r mater. Os twyll yw'r cwbl, pob llwyddiant i bob ymgais wneir i'w ddinoethi. Y gwirionedd ddylid amcanu ato—yn hyn, fel ym mhob peth arall. Os nad twyll ydyw, gwerthfawr tu hwnt i ddesgrifiad fyddai gwybodaeth sicr o hynny hefyd. "Disgwyliaf"—hyd oni ddelo goleuni cyflawnach.

SYLWEDYDD.

---

"Yr hyn a heuir yn y Gwanwyn
Yw'r hyn fedir fisoedd wed'yn:
Os heuir goleuni yn y grynau,
Goleuni fydd y tywysenau."

# CREFYDD YMARFEROL.

"Dangosodd efe iti, o ddyn, beth sydd dda : a pha beth gais yr Arglwydd gennyt, ond gwneuthur cyfiawnder, caru trugaredd, a rhodio yn ostyngedig gyda'th Dduw."—Micah 6 : 8.

I'r proffwyd Micah y perthyn y clod o roddi i'r byd y deffiniad goreu o grefydd yn yr holl Feibl. Gwell gennyf ei adnod ef nag un adnabyddus Iago'r Apostol (Iago 1 : 27). Prif amcan Micah oedd difodi'r arferiad o aberthu anifeiliaid ac eiddo ar yr allor i'r Arglwydd, ac erfyn am aberthau rhagorach—cyfiawnder, trugaredd ac iselfrydedd dduwiol. Yn yr adnod flaenorol cyfeiria'r proffwyd at yr arferiad a ffynai ymhlith yr Iddewon gynt o aberthu eu plant ar yr allor i Dduw.

Ni dderbyniodd y Cristionogion oddiwrth yr Iddewon yr arfer o aberthu anifeiliaid yn y gwasanaeth crefyddol, ond darfu iddynt hwythau geisio

BODLONI DUW A LLAWER MATH AR DDIRPRWY

yn lle y wir aberth o burdeb calon, meddwl ac enaid. Gŵyr pawb am yr arfer, a ffyna hyd heddyw mewn un gangen o'r eglwys, o dalu arian er dileu canlyniadau pechod ; yn fy marn i, nid ariandy yw'r eglwys lle y gellir, drwy dalu arian, doddi ein dyled i'r nefoedd.

Efallai mai nid cynllun drwg fyddai i ddyn ddirwyo ei hun yn drwm bob tro y dywed air garw wrth arall, neu bryd bynnag y gwna weithred anrhugarog ar gymydog ; ond byddai perygl i ni i ystyried dirwy ysgafn fel tâl am anghyfiawnder mawr, ac felly diogelach yw i ni gadw mewn cof bob amser y gwirionedd mawr nas gall un aberth faterol fodloni Duw am droseddu unrhyw ddeddf ysbrydol neu foesol.

Pe byddai i bob dyn

ABERTHU MWY NAG A DDERBYN

oddiwrth bob elw anghyfiawn, gwnai hynny symud y demtasiwn i geisio am elw anonest. Ond nid dyna arfer y byd. Hawdd iawn yw talu i'r Pab ar y Sul gyfran fechan o elw llwgr yr wythnos ; a phe telid yr oll, ni wnai hynny uniawni'r anghyfiawnder a wnaed i'r rhai a ddioygwyd. Gwell o lawer, gan hynny, yw rheol arddechog Micah mai cyfiawnder a phurdeb a ofyn Duw oddiwrthym, nid aberth faterol.

With ddarllen hanes crefydd, gwelwn, o leiaf, dair gradd yn ei datblygiad. Tybia'r anwariad y gall ef wasanaethu Duw drwy aberthu rhan o'i eiddo materol iddo. Credai yr hen Iddewon yn hyn hefyd, ond ychwanegent hwy at eu dyledswyddau crefyddol, addoliad rhwysgfawr a seremoniau lluosog. Credai Micah mai ofer oedd yr holl aberthau a seremoniau, a mai'r unig ffordd i addoli a gwasanaethu Duw oedd drwy gyflwyno y bywyd yn gyfan iddo. Dyna'r syniad uchaf am grefydd heddyw.

YN OESAU BOREU'R BYD,

ychydig feddyliai dynion fod crefydd a moesoldeb wedi eu cysylltu yn anwahanadwy gan Dduw, ac un o ffaeleddau yr Eglwys Gristionogol hyd heddyw yw gosod mwy o bwys ar ddamcaniaethau nag ar fywyd ymarferol, ar gredo nag ar gymeriad. Yn sicr, y mae'n haws i ddal syniadau neilltuol na byw bywyd hunanymwadol, ond ni ddaeth Iesu Grist i ofyn i ni i rodio'r llwybr hawddaf, yn hytrach daeth i agor o'n blaen lwybr serth, garw ac anhawdd hunanymwadiad.

Am gyfnod rhy hir o lawer, edrychwyd ar grefydd fel rhywbeth i'n

dyddori ar y Sul yn unig. Yr oedd hi yn hollol adnabyddus i'r byd yn ei dillad goreu, ond nid felly yn ei dillad gwaith. Mae'n bryd i ni, aelodau o Eglwys Crist ddangos i'r byd nad oes gywilydd ar grefydd rodio ffyrdd lleidiog, a throi yng ngweithfeydd myglyd y wlad yn eu dillad bob dydd.

Yn ystod y blynyddoedd diweddaraf hyn, bu llawer o

FEIRNIADU AR GRISTIONOGAETH A CHRISTIONOGION,

a phan drown i ddadansoddi y feirniadaeth ei phrif sylwedd yw hyn—bod aelodau Eglwys Crist yn methu byw i fyny a safon foesol yr Efengyl a goleddant. Credaf ein bod oll yn barod i addef hyn yn ostyngedig ac yn ddrylliog o galon. Teimlwn hefyd nad yw'r feirniadaeth yn hollol deg a thrugarog. Y mae safon foesol yr Iesu yn uchel iawn, ac yn anffodus amherffaith yw'r goreu o honom. Wrth alw ein hunain yn Gristionogion addefwn ragoriaeth addysg ac esiampl yr Iesu, a mynegwn ddymuniad a phenderfyniad i fyw yn ol ei safon ef mor bell ag y caniata ein galluoedd moesol ac amgylchiadau bywyd. Gwyddom am lawer methiant a llawer codwm yn ein hanes; eto credwn mai anfeidrol well yw ymdrechu a methu, na pheidio ymdrechu o gwbl. Ai rhyfyg yw i ddyn alw i hun yn Gristion oni fyddo'n berffaith? Od yw delfryd yr Iesu yn ein codi ychydig yn uwch, onid bendith yw i ni alw ein hunain yn ddisgyblion iddo er mor amherffaith ydym?

Addefai'r Iesu ei hun amherffeithrwydd: "Na alw fi yn dda," meddai wrth un o'r dorf, "nid oes ond Un da, sef Duw." "Byddwch berffaith," meddai wrth ei ddisgyblion, *nid yw yr myf fi yn berffaith*, ond "megis y mae eich Tad yn y nefoedd yn berffaith."

Dywedir wrthym fod

CREFYDD YN MYND DRWY GYFNEWIDIAD MAWR

heddyw. Credaf fod gwir yn hyn ac y mae arweinwyr crefyddol yr enwadau yn wybyddus o'r ffaith. Natur y cyfnewidiad yw symud y pwyslais o'r damcaniaethol i'r ymarferol, o gredo i gymeriad. Ni fydd crefyddwyr y dyfodol yn llai meddylgar na chynt, ond bydd eu meddylgarwch yn llai dansoddol, ac yn dal perthynas agosach a bywyd ymarferol dynion cyffredin. Ymdrechant dreiddio i galon pynciau dyrys ymarferol bywyd, a dadrys anhawsterau cymdeithas yn ysbryd ac yng ngoleu Efengyl Iesu.

Yn hanes cyfarfodydd yr Eglwysi Rhyddion, yn Sheffield, yn ddiweddar, ceir argoelion o hyn. Ychydig draethwyd ar bynciau athronyddol a diwinyddol, ond siaradwyd llawer ar bynciau dyrys llafur a chymdeithasiaeth.

CWYN GYFFREDINOL YN ERBYN YR EGLWYSI,

gan adran helaeth o weithwyr y deyrnas, yw eu bod ormod o dan ddylanwad dynion cyfoethog—lawer o honynt yn ormeswyr llafur. Teimla llawer o weinidogion fod gormod o wir yn y cyhuddiad, ac y maent yn awyddus i symud yr ystaen, ac i ennill yn ol ymddiried y bobl gyffredin.

Gobeithiaf finnau y bydd i'r eglwysi i roddi i'r wladwriaeth ac i gymdeithas ddynion o ddoniau arderchog, o ddyheadau pur, anhunanol, wedi eu hysbrydoli ag awyddfryd tanllyd i wella cyflwr y tlodion, ac i wneud cyfiawnder perffaith a phob dyn byw. Dyma un o ddybenion mawr yr eglwysi, ac os gwnant hyn, pwy a wâd eu bod yn fendith anrhaethol i'r byd? O honynt eu hunain, nis gall yr eglwysi wneud na chyfnewid un gyfraith wladol, ond gallant fagu ag ysbrydoli dynion cymwys i'r gwaith o wasanaethu'r wladwriaeth, a sefydlu cymdeithas ar egwyddorion cyfiawnder, cydraddoldeb a brawdgarwch.

Mae'r rhyfel mawr wedi

### Dinistrio Hen Safonau Cymdeithas.

Cyn y rhyfel yr oedd y rhai hyn wedi profi yn fethiant; rhaid sefydlu safonau newydd a gwell. Nid gwaith sefydliadau bychain, trystfawr a diawdurdod yw hyn—gwaith cenedlaethol ydyw. Yr ydym newydd ethol dynion at y gorchwyl o wneud deddfau newyddion a sefydlu'r wladwriaeth o'r newydd ar sylfeini cyfiawnder ac ewyllys dda. Gallwn symbylu cof gwladweinwyr anghofus, os esgeulusant gyflawni eu hymrwymiadau; gallwn wneud llawer i addysgu'r werin mewn egwyddorion gwell eto. Dylai eglwys fod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth i wasanaethwyr y cyhoedd, ac hefyd i'r gwerinwr distadlaf.

Yn y dyfodol, bernir yr eglwysi nid yn ol eu diwynyddiaeth ond wrth eu dylanwad ar fywyd ymarferol eu mynychwyr, a dyna y safon iawn o farnu. Nid yw credo o un gwerth ond fel ysbrydoliaeth i fywyd moesol ac ysbrydol aruchel. Boed i aelodau ein heglwysi gymeryd y gwirionedd hwn at eu calonnau Dengys amser a barha'r eglwysi i fod yn offerynnau Duw i sicrhau iechydwriaeth i'r lluoedd.

Beth a gais yr Arglwydd gennym ond gwneuthur cyfiawnder, &c. Heddyw, y mae

### Galw am Gyfiawnder

o lawer o wahanol gyfeiriadau. Nid gwaith hawdd yw penderfynu'r modd i sicrhau cyfiawnder rhwng dyn a dyn; ond pe medrai pawb agoshau at anhawsterau cymdeithas mewn ysbryd caredig, hunan-ymwadol, gan ddymuno yn unig am les uchaf dynoliryw, ni fyddai yn amhosibl nac yn anodd iawn chwaith i ddwyn pethau dyrys i derfyniad boddhaol.

Yn y gorffennol dibrisiwyd crefydd drwy ei gadael o'r tu allan i ddor y neuadd lle ceisid penderfynu anghydwelediad rhwng dyn a dyn, neu genedl a chenedl. Gadwyd o'r neilltu yr unig foddion i dawelu ystormydd nwydus y natur ddynol - yr unig gyfrwng i beri cywilydd ar drais a hunan awydd i godi pen neu lais.

Yn y dyfodol

### Dylai Crefydd Lywyddu ar bob Cyngor.

Hi biau'r allwedd aur i heddwch a brawdgarwch cymdeithasol, ac y mae'n bryd iddi dderbyn yr anrhydedd a'r awdurdod a wrthodwyd iddi ar hyd y blynyddau. Gadawn i bawb weld ein crefydd yn ei dillad gwaith, a bydd i'r rhai sydd wedi cefnu arni, deimlo eu serch yn ail-ennyn tuag ati, a chydnabod, drwy ras Duw, mai hi yw'r unig arweinydd diogel i'r unig fywyd sydd werth ei fyw ar y ddaear.

Meudwy.

---

## ARWR DU.

Rai blynyddau 'nol, treuliodd tri thywysog o Affrica rai dyddiau yn Lerpwl, ar eu ffordd i ymweled a'r Frenhines Victoria. Enw y tri thywysog oedd Khama, Sebele, a Bathoen. Gwahoddodd Arglwydd Faer Lerpwl hwynt i wledd arderchog yn Neuadd y Dref, a synwyd yr holl wahoddedigion gan symlrwydd ac urddas y tri thywysog du. Yr oedd gan Khama wynebpryd deallus, ffigwr syth, a'r fath urddas tawel, fel y dywedai dynion ei fod yn ymddangos yn frenin bob modfedd.

Yr oedd ei iaith yn hyawdl a dwys, ac ar ol ei gyfieithu yn syndod i'w wrandawyr; yr oedd mor syml ac mor ddoeth, mor Gristnogol ac mor dda. Dywedodd wrthynt ei fod yn frenin yn Bechuanaland, a'i fod yn dymuno parhau yn ddeiliad i Victoria, ac i rwystro masnachwyr i ddwyn diodydd meddwol i'w wlad, am eu bod yn niweidiol i'w bobl. Sut y digwyddodd fod y Khama du hwn, yr hwn a ddygwyd i fyny mewn tŷ o bridd, gyda thad oedd yn bagan, yn anialwch Affrica, yn gallu siarad mor ddoeth ac mor dda? Gadewch i ni gymryd cipdrem ar ei fywyd, ac yna credaf y cytunir a mi fod Khama yn wir arwr gwrol.

Ganwyd ef yn 1834, a'i dad Sekhome oedd pennaeth y prif lwyth yn Bechuanaland. Pan oedd Khama a'i frodyr yn ifanc, daeth cenhadwr i Shoshong, lle'r oeddynt yn byw, ac er fod Sekhome yn bagan carai y cenhadwr gymaint, fel y caniataodd iddo addysgu ei blant. Felly, fe gafodd Khama ei ddysgu yn nghylch Iesu, ac i ddarllen y Beibl yn ei iaith ei hunan. Nid rhyw ffurf, a dim ond hyny, oedd bod yn Gristion yn ngolwg y bachgen difrifol hwn, ond cyflwyniad hollol o'i fywyd i ganlyn Crist. Credai y gwirioneddau a ddysgwyd gan Iesu, a cheisiodd eu byw yn ffyddlon yn yspryd ei Athraw mawr.

Os teimlwn ni hi'n galed, mewn gwlad Gristnogol, i fyw y bywyd Cristnogol, pa gymaint caletach y rhaid ei fod i Khama i fod yn ffyddlon mewn gwlad baganaidd! Ymdrechodd Khama yn ddewr yn erbyn gelynion ei wlad—y llwyth Matabele ffyrnig; ond wedi enill buddugoliaeth, nid oedd yn caniatau creulondeb na lladrad, ac ni wnai fynychu y defodau a'r seremoniau a gedwid gan ei bobl pan yn dathlu buddugoliaeth. Gorchmynodd ei dad iddo fynd, yna ymbiliodd arno, ac yna collodd ei dymer, a dywedodd na chai'r un mab o'i eiddo ef fod yn etifedd os na chymerai ran yn nghyfarfod diolchgarwch ei genedl. Daliai Khama yn gadarn, fe fyddai'n ffyddlon i'w gydwybod ac i'w Dduw, er iddo golli ei deyrnas drwy hyny.

Pan welodd Sekhome na allai orfodi Khama i roddi i fyny ei Gristnogaeth, penderfynodd ei ladd ef, a chymrodd rai dynion gydag ef un nos i fwthyn Khama, gan orchymyn iddynt ei ladd yn ei gwsg. Ond carai'r dynion Khama, ac ni fynnent ei ladd, ac ni chaniataent i Sekhome i'w ladd. Cyn y bore yr oedd yr holl dref wedi clywed am fwriad Sekhome, a chodasant i fyny yn un dorf yn ei erbyn, fel y gorfu iddo ffoi i'r bryniau mewn ofn am ei fywyd.

Pan gafodd Khama allan y lle yr oedd ei dad yn ymguddio ynddo; aeth ato ac addawodd ei amddiffyn os deuai yn ol i gymeryd i fyny ei hen safle. Ar y cyntaf yr oedd yn ofnus, ond aeth Khama ato gyda phob arwydd o barch, a gwnaeth ef yn frenin un waith drachefn; ond ni ddarfu i'r ymddygiad caredig hwn gyffwrdd o gwbl a chalon Sekhome, ond aethai yn ei flaen yn cynllwyno'n barhaus i gymryd bywyd ei fab. Un nos fe ddygodd ddau ddewin i osod bwthyn Khama ar dân, ac i ddawnsio o'i amgylch, ac i regu ac i waeddi am swyn yr ysprydion drwg a gredent ynddynt. Cododd Khama yn dawel ac heb rwgnach dim dechreuodd ddiffodd y tân. Dywedodd ei gyfeillion wrtho fod yn rhaid iddo yntau geisio help y dewiniaid a melldithio ei dad, neu ni allent ei barchu. Atebodd yntau fod Gair Duw yn gwarafun iddo felldithio neb. Ar hynny, gadawodd y bobl ef, ac i achub ei fywyd fe ffodd yntau i'r mynyddau gyda'i deulu a'i gyfeillion.

Un diwrnod fe ddygodd dau o ddynion Khama un o geffylau ei dad iddo. Yntau a'u ceryddodd, a dywedodd nad oeddynt i ymosod ar ei dad yn unrhyw fodd. Parodd iddynt fynd a'r ceffyl yn ol i Sekhome, ac i ddadgan eu hedifeirwch. Ni chlywodd na christion na phagan erioed mo Khama yn dweyd gair yn erbyn ei dad. Wedi marw Sekhome fe ddarfu i frawd ieuengach Khama fygwth cymryd ei fywyd a gwneud ei hunan yn bennaeth. Aeth Khama

ato, heb neb gydag ef, gan ddywedyd, "Os yw fy mrawd yn dymuno fy lladd, gwell i mi fynd ato yn unig." Aeth ato yn unig, a dylanwadodd ar ei frawd yn y fath fodd fel y bu heddwch.

Wedi i Khama sefydlu ei hunan yn Shoshong fel llywydd y llwyth, fe wnaeth bennaeth ardderchog. Yr oedd ganddo'r ddoethineb a'r gwroldeb i wneud cyfreithiau er lles y bobl, er iddynt ei gashau oherwydd ymyraeth a hen arferion. Gwaharddodd ddewiniaeth, ac alltudiodd y meddygon dewinol a gredent mewn ysprydion drwg. Dygodd derfyn ar yr arferion creulawn o ymdrin a'r gweiniaid a'r afluniaidd, a hen bobl. Gwaharddai bob ffurf o gosp creulawn, a pharodd i'w bobl ymddwyn yn garedig at eu gwasanaethyddion. Sylwodd Khama fod y ddiod oedd ei bobl mor hoff o hono yn ddinystr i'w caritor, felly fe'u galwodd yn nghyd, a dwedodd stori blaen wrthynt, fod y ddiod yn eu diraddio, a'i fod yn gorchymyn yn y dyfodol i beidio ei wneud na'i yfed. Ystyriai y bobl y gorchymyn yn anioddefol, ac aethant i ffwrdd yn ceintachu ac yn bygwth gwneud brawd Khama yn bennaeth yn ei le. Tybiai hyd yn oed y cenhadon ei fod yn mynd yn rhy bell yn hyn. Yntau a atebodd—y ddiod yw ffynon pob cweryl a phob ymryson. Mi osodaf stop arno, ac fe wnaeth, er peryglu ei einioes drwy hynny.

Yna galwodd Khama gyfarfod o ddynion gwynion, a gwaharddodd iddynt werthu diod i'w bobl ef. Drosodd a throsodd mewn llawer dull a modd ceisiodd y dynion gwynion ddwyn y ddiod i'r wlad ; ond yr oedd Khama yn benderfynol. Mewn llythyr at y llywydd dywed Khama—"Yr wyf yn ofni diod y dyn gwyn yn fwy nag arfau y Matabele, y rhai a laddant gorff dyn ; ond y mae'r ddiod yn gosod cythreuliaid mewn dynion, ac yn dinystrio corff ac enaid. Ni iacheir eu clwyfau byth. Yr wyf yn ymhwedd ar eich anrhydedd i beidio ceisio genyf i agor y drws lleiaf i'r ddiod." A phan ddaeth y penaethiaid i'r wlad hon dyna'r un peth y gofalent fwyaf am danom. Derbyniodd y frenhines hwy yn garedig yn Windsor Castle, a dywedodd : "Yr wyf yn falch i weld y penaethiaid ac i wybod eu bod yn caru fy llywodraeth. Yr wyf yn cadarnhau y cytundeb a wnaed gan fy Ngweinidog. Yr wyf yn cymeradwyo'r penderfyniad i gau y diodydd meddwol allan o'r wlad. Teimlaf yn gryf yn y mater, ac yr wyf yn falch i weld y penaethiaid mor benderfynol i gadw'r fath felldith ofnadwy oddi wrth y bobl. Mae'n drist meddwl am y drwg ofnadwy a wneir gan ein masnachwyr, y rhai yn groes i ddymuniad y frenhines, ydynt yn cludo'r diodydd i'r gwledydd hynny. Ond nis gallwn lai nag edmygu y fath bennaeth ag yw Khama, yr hwn sy'n gweld y drwg, ac yn beiddio ei wahardd. A gobeithiwn cyn hir gael gweld ein pobl ni, y rhai ydynt gryfach, ac a ddylent fod yn ddoethach, yn gosod terfyn ar y fasnach gywilyddus."

H. M. J.

## GENEDIGAETH.

MAWRTH 28—Mab i Mr. a Mrs. J. K. Hudson, Grammar School, Fowey, Cornwall. Ei enw yw Aubrey John Rees.

# MARWGOFION.

---

MAWRTH 14, Sarah Mary, merch anwyl i Charles a Margaret Crabb, Efail, Castellhywel, yn 13 oed. Bu'r fechan yma yn gwaelu am fisoedd lawer, ac yr oedd yn amlwg er's amser maith nad oedd gwella iddi; "araf, araf wywo" wnaeth hi fel Telynog. Wrth golli y fechan collodd Eglwys ac Ysgol Sul, Bwlchyfadfa un o'u ffyddloniaid bychain, a chollodd yr aelwyd a'r cartref un o'r plant diniweitiaf a hawddgaraf fagwyd erioed. Cydymdeimlir yn fawr a'r tad, a'r fam a'r plant yn eu profedigaeth chwerw. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent capel Waunifor (M.C.), pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. "Ti a gei wybod ar ol hyn."

MAWRTH 18, yn 71 oed, yng Nghlyngwyn, ger Cribyn, bu farw John Jones, gynt o Lodge Pontfaen, Llanbedr. Yr oedd yn adnabyddus iawn yn yr ardal rhwng Llanbedr a Chribyn, a chan gylch ei adnabyddiaeth mynwesid teimladau cynnes iawn tuag ato. Dyn diniwed oedd John, na wnai ddrwg i neb. Er's tipyn, yr oedd wedi ymgartrefu gyda'u ddwy nith yn y lle uchod, gan y rhai y derbyniodd bob gofal a thynerwch. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Capelygroes y dydd Sadwrn canlynol, a gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle.

MAWRTH 19, Margaret Elizabeth, anwyl blentyn Daniel ac Anne Howells, Rhoslwyn, Cribyn, yn 3 oed, o enyniad yr ysgyfaint yn dilyn yr anwydwst. Siomedigaeth flin i'r rhieni oedd colli un fechan mor brydferth a llon. Er hynny, ymgysurent yn y gobaith nad wedi diflannu, eithr wedi blaenu y mae. "Fe sych Duw bob deigr oddiwrth eu llygaid hwy" pan y cânt yr un fechan yn ol i'w mynwes. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Cribyn, dydd Sadwrn canlynol, y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, yn gwasanaethu.

MAWRTH 20, yn 27 mlwydd oed, David Thomas, mab hynaf Thomas a Hannah Thomas, Pantyffynon, Llanwenog. Yr oedd yn hollol iach hyd o fewn i bedair-awr-ar-hugain i'w farwolaeth, pryd y cymerwyd ef yn glaf gan yr *Influenza*. Yr oedd ar wasanaeth gyda'i ewythr yng Nghwmnant, Llanwenog, er's amryw o flynyddau, ac yr oedd ei ddiwydrwydd a'i ffyddlondeb yn y lle hwnnw wedi enill gair da iddo ym mhlith ei gydnabod. Nodweddid ef gan ysbryd llon, yr hyn a enillodd iddo gyfeillion lawer yn yr ardal. Claddwyd y Llun canlynol ym mynwent Eglwys Llanwenog. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. Glyn Edwards, Seion, Cwrtnewydd, a chynorthwywyd gan y Parch. J. Davies, D. Evans, ac L. Williams. Gadawodd dad a mam, tri brawd ac un chwaer, ynghyd a pherthynasau agos ereill, mewn galar mawr ar ei ol. Duw y Nef a'u nhertho i ddwyn y groes.

MAWRTH 25, yn 29 mlwydd oed, Miss Megan Davies, merch hynaf Mr. a Mrs. Evan Davies, Derwen, Trevor Street, Aberdar. Cymerwyd hi yn glaf gan yr *Influenza*, a dilynwyd hynny gan y *Pneumonia*, ac ni fu ei chystudd ond wythnos. Yr oedd yn un o'r merched goreu a berthyn i eglwysi ein henwad ni yn Nghymru. Ymddangosodd darlun o honi yn YR YMOFYNYDD am Ebrill 1914, ynghyd a nodiadau am dani. Yr hyn a gyfrifai am i'r darlun hwn o honi ymddangos oedd ei ffyddlondeb fel aelod o Eglwys Highland Place, Aberdar, a'r wasanaeth gwerthfawr a roddai i'r eglwys, ac i dref Aberdar a'r trefi cylchynol fel cerddores. Meddai ar lais *contralto* godidog, ac enillodd enw a lle mawr yn y byd cerddorol. Anaml y byddai cyfarfod cerddorol

o bwys yn cael ei gynnal yn Aberdar a'r cylch heb ei bod hi yn cael ei dewis i gymeryd rhan ynddo. Hanai o bobl gerddorol—ei thadcu a'i mamgu ar ochr ei mam yw Mr. David a'r diweddar Mrs. Margaret Evans, Llwynbedw, Alltyblacca. Mae ei brawd hynaf, Mr. Dan Davies, yn gerddor diwylliedig, ac yn L.T.S.C. Brawd iddi yw y Parch. J. Dare Davies, sydd yn weinidog Undodaidd yn yr Iwerddon. Gweithiodd yn galed i anfon cysuron i'r milwyr yn ystod y rhyfel diweddaf, a chymerodd ran flaenllaw mewn nifer fawr o gyfarfodydd i'r milwyr. Ar ol i'r rhyfel dori allan aeth ar wasanaeth i un o'r Banciau yn Merthyr, a bu yno hyd yn ddiweddar. Yr oedd o duedd ddarllengar, ac yn ddeallus iawn; gwnae hynny hi, ynghyd a'i hynawsedd, yn gydymaith dymunol a dyddorol iawn, ac yr oedd iddi lu o gyfeillion, pa rai a deimlant yn drist iawn o'i cholli. Cynhaliwyd gwasanaeth yn y tŷ y Gwener canlynol, y Parchn. E. T. Evans, Highland Place, ac E. R. Dennis, Hen Dy Cwrdd, yn cymeryd rhan. Yna dygwyd y corph gyda'r gerbydres i orsaf Llanybyther, i'w gladdu yn Alltyblacca. Cyfarfu amryw o berthynasau a chyfeillion â'r corph, a dygwyd ef i Gapel Alltyblacca. Boreu dranoeth, daeth nifer liosog ynghyd, a chyflawnwyd gwasanaeth crefyddol yn y Capel gan y Parchn. L. Williams a D. Evans, ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Davies. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mrs. Dr. Jones, yr hon hefyd a chwareuodd y *Dead March* ar y terfyn. Gadawodd dad a mam, tri brawd, un chwaer, ynghyd a pherthynasau agos eraill, mewn galar mawr ar ei hol. Duw y Nef a'u nhertho i ddwyn y groes.

MAWRTH 27, yn 77 mlwydd oed, Benjamin Jenkins, Tancoed, Llanwenog, gynt o Drefach, yn yr un plwyf. Gôf oedd wrth ei alwedigaeth, a bu yn weithiwr diwyd yn Drefach am flynyddau lawer. Credwn i gylch helaeth o bobl ei gael yn onest ac yn gywir yn ei waith. Collodd ei briod, yr hon oedd yn chwaer i'r Parch. J. Davies, Tancoed, amryw o flynyddau yn ol, ac wedi i lesgedd ei oddiweddyd aeth at ei unig ferch, yr hon sydd yn Nhancoed er yn ieuanc. Yno hefyd y mae un o'i feibion, ac wyres iddo, a chafodd hwy, ynghyd a'i fab arall sydd wedi ei ddilyn fel gôf yn Drefach, yn dirion iawn iddo yn ei nychod, ac yn ei gystudd olaf. Claddwyd y Llun canlynol yng Nghapelybryn. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parch. E. Glyn Edwards. Gadawodd ddau fab, un merch, ac wyrion, ynghyd ag un brawd, mewn galar ar ei ol.

EBRILL 12, yn 64 mlwydd oed, bu farw Mr. Samuel Davies, Coedpark, Llanbedr, wedi cystudd maith a chaled. Nid oedd wedi mwynhau iechyd cryf er's amser bellach, ond bu y newydd o farw ei fab yn garcharor yn yr Almaen yn angau iddo. Yr oedd yn un o amaethwyr mwyaf cyfrifol y cylch, ac wedi llanw lle amlwg yn yr ardal. Yr oedd yn gymeriad unplyg a chadarn, a bu yn un o golofnau Brondeifi am adeg hir, ac ni welwn mo'i wên siriol, ac ni chawn ei gyfarwyddyd parod yma mwy. Y dydd Mawrth dilynol, hebryngwyd ei weddillion marwol i fynwent Bettws *(private)*. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. T. O. Williams oddiar y geiriau "Mewn hedd ac uniondeb y rhodiodd gyda mi." Cynorthwywyd gan y Parch R. C. Jones a T. S. Morgan, Swyddffynon, ac yn yr Eglwys gan Ficer y plwyf. Gadawodd un mab a saith merch, heblaw perthynasau eraill a llu mawr o gyfeillion, i wylo am dad cariadus, am gyfaill cywir, a dyn unplyg a gonest.

EBRILL 13, yn 67 mlwydd oed, bu farw Rachel Jones, anwyl briod Mr. Griffith Jones, Frowen, Pencarreg. Yr oedd wedi ei chaethiwo i'r gwely am ychydig amser, ond daeth y diwedd ar fyr rybudd—prin deuddeg awr—trwy ergyd o'r parlys. Un o deulu Llwynifan yd-

oedd, ac yr oedd wedi dal perthynas agos iawn yn ystod ei bywyd ag Eglwysi Caeronen a Brondeifi, ac er pelled y ffordd, tra gallodd, nid oedd ei lle fyth yn wâg, ac yr oedd Eglwys Brondeifi yn agos iawn at ei chalon. Gwraig dawel a heddychlon ydoedd, yn caru'i chartref a'i theulu, ac anaml y gwelid aelwyd mwy cysurus nag un y Frowen, ond heddyw y mae'n oer a gwag. Y dydd Iau dilynol claddwyd (*private*) ei gweddillion marwol yn naear mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Gweinidog, gyda chynorthwy caredig y Parchn. R. C. Jones a Lewis Williams. Gadawodd gydmar bywyd am ddeugain mlynedd, dau fab, a thair merch, heblaw perthynasau a chyfeillion, i wylo am fam dyner a darbodus ac am wraig dawel a rhinweddol.

EBRILL 13, Sarah (Sallie) Jones, Glyn, Talgarreg, yn 90 oed. Gadawodd saith o blant, amryw ŵyrion, dwy chwaer, brawd, a llu o gyfeillion mewn galar. Bu yr ymadawedig a'i theulu yn byw am flynyddoedd yn Croesgwyn, ac wedi hyny yn Efelfach, Talgarreg, ond er's llawer blwyddyn yr oedd yn byw yn Glyn. Ar ol mwynhau iechyd da am flwyddi maith goddiweddwyd hi gan lesgedd a bu raid iddi dreulio ei blynyddoedd olaf yn ei gwely—y corff wedi mynd yn llesc a methedig o dan bwysau blynyddoedd. Daliodd ei synwyrau a'i chof hyd y diwedd, ac yr oedd yn gwmni diddan a diddorol bron hyd y terfyn eithaf. Hoffid hi yn fawr gan bawb a'i hadwaenai ar gyfrif ei diniweidrwydd a'i hyspryd llednais. Claddwyd y Iau canlynol yn mynwent Bethel (W.), Capel Dewi. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan Ficer Talgarreg. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins, a gorffenwyd y gwasanaeth ar lan y bedd gan y Parch. Wesley Morgan.

EBRILL 15, Evan Jones, 5 Glen View, Aberavon, yn 58 oed. Cychwynodd at ei waith y dydd uchod oddeutu 8 o'r gloch y boreu yn hollol iach, ond bu farw ymhen llai nag awr. Yr oedd yn enedigol o Llandyssul. Y Sadwrn canlynol dygwyd ei gorff i fynwent Llwynrhydowen, lle yr oedd wedi claddu ei wraig gyntaf a rhai plant. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd mewn galar briod, dau o blant, a pherthynasau ereill.

EBRILL 17, Sarah Margretta, merch fechan i Oliver a Annie Hailes, Penlon-Esger, Pontshaen, yn ddau fis oed. Cydymdeimlir yn fawr a'r rhieni ieuainc yn eu galar a'u hiraeth, yn enwedig a'r fam, yr hon sydd wedi gweld llawer o gystudd yn ddiweddar. Claddwyd y Llun canlynol yn Bwlchyfadfa, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

IONAWR 31, yn 64 mlwydd oed, David Jones, Cilfynydd Road, Cilfynydd. Yr oedd yr ymadawedig yn fab i Evan Jones (Ianto Dai), Meiswn, Well Street, Llandyssul. Cludwyd ei weddillion i fynwent Pantydefaid y dydd Mercher canlynol. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog.

---

## Y FRONFRAITH.

Swynol gantores anian—yw bronfraith
Ar benfrig yn chwiban ;
Y wech angel—gwna ei chygan
Ael y gwŷdd yn deml y gân.

ERYR GLYN COTHI.

# MANION AC HANESION.

ALLTYBLACCA.—Mawrth 19, cynhaliwyd yr Wyl Dê Flynyddol. Gwnaeth bron bawb perthynol i'r lle eu rhan drwy ddwyn defnyddiau at y wledd. Cafwyd amrywiaeth fawr o ddanteithion, a rheiny o'r fath oreu. Yr oedd yn syndod gweled y fath wledd yn y dyddiau hyn pryd y mae pethau mor brin ac uchel eu pris. Profai hyny fod gan y bobl serch mawr tuag at yr achos yn y lle. Yn yr hwyr caed cyngherdd. Llywyddwyd gan y gweinidog, ac arweiniwyd yn fedrus gan Mr. T. J. Jones, C.M., Llanwnen. Bu amryw o'r tu allan i'r eglwys mor garedig a chynorthwyo. Canodd Côr y Plant amryw o ddarnau o dan arweiniad Miss Jones, Inglis Cottage. Cyflwynwyd llyfrau ar ddechreu y cyfarfod yn wobrau i nifer o aelodau yr Ysgol Sul oedd wedi mynychu yr Ysgol yn ffyddlon ar hyd y flwyddyn.

NODION O GLAN TAWE. — Sylwyd yn ddiweddar fod ystormydd mwy na chanrif ar fynydd Gellionen yn gyflym ddileu y llythyrenau ar y maen osodwyd ym mur ffrynt y Capel pan y cafodd ei adeiladu. Aeth ychydig o frodyr, sydd yn cymeryd dyddordeb yn yr hen adeilad cysegredig ar y mynydd, ati, a gosodwyd cerfiwr ar waith, a symudwyd yr hen gareg i'r Capel er diogelwch, a gosodwyd llechen o farmor yn dwyn adysgrif gywir o'r hen i fyny yn ei lle. Rhed yr ysgrif fel y canlyn :—"This place of worship for the use of a society of Protestant Dissenters was first erected 1692, under the patronage of the HON. BUSSY MANSELL, Esq. And rebuilt 1801, under the direction of the Pastor for the time being, the Rev. JOSIAH REES, in the 38th. year of his Ministry Hereat." (Ymddengys y gweddill o'r "Nodion o Glan Tawe" yn ein rhifyn nesaf.)

PROFFWYDO Y RHYFEL. — Yn YMOFYNYDD 1915, tudalen 41, dan y penawd "Dammeg allan o'r Apocrypha," rhoddwyd difyniad a dybid fod yn ddesgrifiad o'r Rhyfel 1914—18. Gweler Ail Lyfr Esdras, xi. 29—45 ; xii. 1—13. Darllener yr adnodau eto, a chofier mai *Llew* yw arwyddlun Prydain hyd heddyw, a'r *Eryr* yw arwyddlun Germani. Ni ellir llai na gweld yma ddarlun tarawiadol iawn yn hanes diweddar y ddwy wlad.—R.J.J.

CYRFF EIN MILWYR.—Mae miloedd o honynt yn gorwedd yn wasgaredig ar hyd maesydd Ffrainc, ac mae'r gofyniad wedi codi, Beth i wneud a nhwy? Tybia rhai y dylid eu gadael lle y maent ; ond y mae yna anhawsderau anorfod i hynny. Ac yr ydys wedi penderfynu cael mynwentydd priodol iddynt, ac i osod carreg goffa uwchben pob bedd, oll yr un ffurf fel na byddo gwahaniaeth rhwng cyfoethog a thlawd. Yr ydys hefyd i raddau wedi penderfynu pa fath ysgrifen—"yr oed a'r enw a'r dydd bu farw" wrth gwrs. Ond yr ydys am rhagor, ac mae llawer o ysgrifenu wedi bod ynghylch y "rhagor." Eisieu *motto* oedd, ac yr ydys wedi derbyn awgrym Mr. Rudyard Kipling, allan o'r Apocrypha, allan o'r bennod sy'n dechreu — "Canmolwn yn awr y gwyr enwog." Gweler 2 Esdras xliv. Ceir y geiriau a ddewisir yn adnod 14—"Y mae eu henw yn byw byth."

MAE enw Joshua Thomas, awdwr "Hanes y Bedyddwyr," yn hyspys i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD. Yr oedd yn ewythr i Dafis Castell Hywel. Adroddir iddo bregethu ar adeg urddiad Timothy, ei fab, ar 1 Timotheus vi. 20—yn Saesneg : "O Timothy, keep that which is committed to thy trust." Barna Aspland fod dewisiad y testun "with questionable taste." Paham ?

# Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Half-a-Crown each net

Volumes now ready.

**Religion as affected by Modern Science and Philosophy.** By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

**Religion in Social and National Life.** By H. D. Roberts.

**The New Testament in the Light of Modern Knowledge.** By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

**Communion of Man with God.** By R. Nicol Cross. M.A.

**Jesus and Christianity in the Twentieth Century.** By Alfred Hall, M.A.

**The Revelation of God in Nature and Man.** By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

**The Divine Element in Art and Literature.** By W. L. Schroeder, M.A.

**Eternal Life Here and Hereafter.** By Sydney H. Mellone, M.A., D.Sc.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

---

# Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

# HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

**Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.**

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

---

# CHANNING HOUSE.

**High School for Girls and Unitarian Boarding School**

HIGHGATE, LONDON, N.

*Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),*

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

# London Joint City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £84,428,948. Paid up Capital .. £7,172,697 10s.

Reserve Fund .. £7,172,697 10s.

## LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1918.

| | £ | s. | d |
|---|---|---|---|
| To Capital Paid up, viz :— | | | |
| £2 10s. 0d. per Share on 2,869,079 Shares of £12 each .. | 7,172,697 | 10 | 0 |
| ,, Reserve Fund .. .. | 7,172,697 | 10 | 0 |
| ,, Dividend payable on 1st February, 1919 .. .. .. | 451,879 | 18 | 10 |
| ,, Balance of Profit and Loss Account as below .. .. | 675,097 | 14 | 7 |
| | 15,472,372 | 13 | 5 |
| ,, Current, Deposit & other Accounts | 334,898,435 | 12 | 6 |
| ,, Acceptances on account of Customers .. .. | 13,145,849 | 2 | 11 |
| | £363,516,657 | 8 | 10 |

| | | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|---|
| By Cash in hand (including Gold Coin £8,000,000) and Cash at Bank of England .. .. | | 63,756,371 | 2 | 5 |
| ,, Cheques on other Banks *in transitu* .. .. | | 2,001,486 | 12 | 7 |
| ,, Money at Call and at Short Notice .. .. | | 65,809,169 | 12 | 4 |
| ,, Investments :— | | | | |
| War Loans, at cost (of which £432,979 15s. is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities .. | | 57,463,594 | 19 | 3 |
| Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures | | 468,383 | 12 | 0 |
| British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks .. | | 1,112,725 | 19 | 8 |
| Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds | | 1,410,465 | 18 | 10 |
| Sundry Investment .. .. .. | | 1,145,481 | 1 | 6 |
| ,, Bills of Exchange .. .. .. | | 39,249,296 | 3 | 2 |
| | | 232,416,975 | 1 | 9 |
| ,, Advances on Current and other Accounts .. | | 99,213,614 | 15 | 6 |
| ,, Advances on War Loans .. .. .. | | 14,218,201 | 2 | 1 |
| ,, Liabilities of Customers for Acceptances .. | | 13,145,849 | 2 | 11 |
| ,, Bank Premises, at Head Office and Branches .. | | 3,762,127 | 6 | 7 |
| ,, Belfast Bank Shares :— | | | | |
| 50,000 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid | | | | |
| 150,000 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid | | | | |
| Cost .. .. | £1,237,500 0 0 | | | |
| *Less* part Premium on Shares issued .. | 477,810 0 0 | | | |
| | | 759,690 | 0 | 0 |
| | | £363,516,657 | 8 | 10 |